

Cofnodion / Minutes

Oherwydd y Covid-19, penderfynwyd i cynnal cyfarfod ar-lein
ar nos Fawrth, 24ain Tachwedd 2020

*Due to Covid-19, it was decided to hold an online meeting.
on Tuesday 24th November 2020*

Presennol / Present: Ms Sandra Thomas **ST** (Cadeirydd / Chairperson), Cynghorydd Mr Eric W. Jones (CSYM) **EWJ**, Mrs Lindsay Vaughan **LV**, Mrs Lynn Hervouet (Clerc / Clerk) **LH**.

Ymddiheuriadau / Apologies: Mr Arwyn Jones **AJ**, Mr Cenwyn Williams **CW**, Mr Steven A. Jones **SAJ**, Cynghorydd Mr Dafydd Roberts (CSYM) **DR**.

Yn absennol / Absent: Mr Chris Davies **CD**.

1. Croeso / Welcome

Cadeiriwyd y cyfarfod gan **ST** ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.
The meeting was chaired by ST and all present were welcomed.

2. Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Dim / None

3. Cofnodion Cyfarfod Diwethaf 20/10/20. / Minutes of last meeting 20/10/2020.

Derbyniwyd y cofnodion 20/10/20 yn gywir, Cynigwyd gan **EWJ**, Eiliwyd gan **ST**.
The minutes 20/10/20 were confirmed correct, Proposed by EWJ, Seconded by ST.

4. Balans ar 01/11/2020. / Balance on 01/11/2020.

Cyfrif Cyfredol "Community" (ar 01/11/2020)	-	£16,274.65
Cynilo "BMM" (ar 22/10/2020)	-	£ 4,944.87
	=	£21,219.52

Y Ganolfan - Balans yn y banc ar 15/11/2020. / Y Ganolfan Bank balance on 15/11/2020.

Cyfrif "Community" (ar 15/11/2020)	-	£ 2,556.13
Cynilo "BMM" (ar 15/11/2020)	-	£ 3,318.84
	=	£ 5,874.97

5. Cyllid / Finance

5.1 Biliau sydd wedi ei dalu / Bills that have been paid

£10,776.72 - Play & Leisure to supply & install 2 x Modified Sports Goal End

£9.12 - I **LH** am brynu llyfr o 12 stamp dosbarth 1af / *To **LH** for buying a book of 12 1st class stamps*

£55.50 - Llanfairpwll Poppy Appeal am 3 torch pabi ar gyfer Sul y Cofio. /

Llanfairpwll Poppy Appeal for 3 poppy wreaths for Remembrance Sunday.

£1,750.00 - Mr N Jones am torri gwair a hel ysbwriel yn cae chwarae / *Cutting grass and collecting rubbish in playing field.*

£580.00 - Mr N Jones am torri yr ôl llwybrau cyhoeddus dwywaith. / *For cutting all public footpaths twice.*

£220.00 - Mr N Jones am torri gwrych tu cefn i tai Bryn Eithin / *For cutting the hedge behind Bryn Eithin houses*

5.2 Biliau iw dalu / Bills for payment

Dim / *None*

5.3 Taliadau wedi derbyn / Payments received

£38.50 - Ad-daliad am 2 torch pabi gan **EWJ** a **DR**. / *Re-payment for 2 poppy wreaths from **EWJ** and **DR**.*

£6.00 - Peppercorn rent am 2015-2020 gan Y Ganolfan / *Peppercorn rent for 2015-2020 from Y Ganolfan*

£4899.00 - Grantiau bach ar gyfer "Modified Sports Goal End" yn cae peldroed / *Small grant for the Modified Sports Goal End in the football pitch*

6. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

6.0.1 Cae chwarae / cae peldroed / Asesiad Risg. / Playing field / football field / Risk Assessment.

Rydym yn aros am ddiweddariad gan cwmni offer chwarae ynglyn a siglenni bach. / *We are waiting for an update from the play equipment company regarding small swings.*

Mae angen creu asesiad risg newydd ar gyfer y offer newydd yn y cae chwarae a'r cae peldroed. / *New risk assessment needs to be created for the new equipment in the playing field and football pitch.*

6.0.2 Y Ganolfan

Diweddariad am y damprwydd a'r tô. Mae pwyllgor Y Ganolfan yn awyddus i gyfarfod gyda chynghorwyr cymunedol i drafod yr adeilad. Mae'r clerc yn hapus i drefnu y cyfarfod yma. / *Updates about the damp. The Y Ganolfan committee is keen to meet with community councillors to discuss the building. The clerk is happy to arrange this meeting.*

Rydym yn aros am amcanbris gan weithiwr lleol ynglyn a'r tô. / *We are waiting for an estimate from a local worker about the roof.*

Mae angen gwneud trefniadau i syrfewr ddod i'r Ganolfan i edrych ar y tamprwydd ac i roi amcanbris o'r gwaith sydd angen ei wneud. / *Arrangements need to be made for a surveyor to come to the Ganolfan to look at the dampness and to give an estimated price of the work that needs to be done.*

6.0.3 Llwybr cyhoeddus 37/001 / Public footpaths 37/001

Darllenwyd yr ebost i'r aelodau. / *The email was read out to the members.*

6.0.4 Draen y tu allan i tai Cader Idan / A drain outside Cader Idan houses

Darllenwyd yr ebost i'r aelodau. / *The email was read out to the members.*

6.0.5 Is-bwyllgor cyllid / Financial sub-committee

Mae angen i'r is-bwyllgor cyllid trefnu cyfarfod er mwyn dechrau trafod y praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. / *The finance sub-committee needs to arrange a meeting for them to start discussing the precept for the next financial year.*

6.0.6 Cyngorydd ar fwrdd llywodraethwyr Ysgol Brynsiencyn / Councillor to the board of Brynsiencyn School governors

I'w drafod yng nghyfarfod mis Ionawr. / *To be discussed in January's meeting.*

6.0.7 Mandad y banc / Bank mandate

Yn dilyn ymddiswyddiad MEE o Gyngor Cymuned, mae angen cael aelod newydd ar mandad y banc. Mae LV yn cyflwyno ei henw i fod yn llofnodwr. Y clerwr i drefnu'r gwaith papur. / *Following MEE's resignation from the Community Council, we need a new member on the bank mandate. LV is putting her name forward to be a signatory. The clerk to arrange the paperwork.*

6.0.8 Adleoli'r bin cyhoeddus yn y pentref / Relocate the public bin in the village

Mae y clerwr wedi derbyn galwad ffôn gan yr adran gwastraff ynglyn â adleoli'r bin cyhoeddus. Mae'r aelodau yn awyddus i dderbyn y bin yma yn ôl yn y pentref. Hoffent gael y bin y tu allan i'r siop neu o leiaf ar y stryd fawr. / *The clerk has received a telephone call from the waste department regarding the relocation of the public bin. Members are keen to receive this bin back in the village. They would like to have the bin located outside the shop or at least on the high street.*

6.0.9 Moel y Don

Darllenwyd yr ebost mae'r clerwr wedi'i dderbyn gan glwr Cyngor Cymuned Felinheli sydd yn poeni am jet skis yn cael ei lansio o Moel y Don. Rydym yn aros am ymateb. / *The clerk has received an email from the clerk of Felinheli Community Council which was read, who is concerned about jet skis being launched from Moel y Don. We are awaiting a reply.*

6.1.0 Hen adeilad llyfrgell Criccieth / *Criccieth old library building*

Mae'r clerwr wedi derbyn llythyr gan twrna yn gofyn a oes Cyngor Cymuned Llanidan diddordeb gyda'r hen adeilad oherwydd mae hyn yn rhan o ewyllys John Trevor Roberts (cronfa JTR). Y clerwr i wneud ymholiadau pellach. / *The clerk has received a letter from a solicitor asking if Llanidan Community Council has an interest with the old building because this is part of John Trevor Roberts' will (JTR fund). The clerk to make further inquiries.*

6.1.1 Rheolau Sefydlog 2020 a Rheoliadau Ariannol. / *Standing Orders 2020 and Financial Regulations.*

I'w drafod yng nghyfarfod mis Ionawr. / *To be discussed in January's meeting.*

6.1.2 Arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer cyngor sir Ynys Môn. / *Review of the electoral arrangements for the county of Anglesey.*

Mae'r clerwr wedi derbyn adroddiad terfynol o Arolwg o Drefniadau Etholiadol Sir Ynys Môn. Dangoswyd copi o'r adroddiad i'r aelodau. / *The clerk has received a final report on Review of the electoral arrangements for the county of Anglesey. Members were shown a copy of the report.*

6.1.3 Archwiliad Cyfrifon y Cyngor 2019/2020 BDO. / *Council Accounts Audit 2019/2020 BDO.*

Mae'r clerwr wedi derbyn Pwyntiau Archwilio heb eu hateb gan yr archwilydd allanol. Mae'r clerwr wedi ymateb gyda'r atebion. / *The clerk has received unanswered Audit Points from the external auditor. The clerk has responded with the answers.*

6.1.4 Charity Commission

Mae adroddiad blynyddol 2019/2020 "The Ellis Griffith Memorial Playing Field" wedi'i gwblhau ar lein. Diolchwyd y cadeirydd i'r clerwr am wneud yr adroddiad. / *The 2019/2020 annual report "The Ellis Griffith Memorial Playing Field" has been completed online. The chairperson thanked the clerk for doing the report.*

6.1.5 Arolwg Anghenion Tai yn Brynsiencyn / *Housing Needs Survey in Brynsiencyn*

Darllenwyd yr ebost i'r aelodau. / *The email was read out to the members.*

6.1.6 Gweithredoedd tŷ yn Brynsiencyn / *Deeds to a house in Brynsiencyn*

Mae'r clerwr wedi derbyn llythyr gan twrna yn gofyn os byddem yn gallu helpu perchnogion y tŷ yma gan ein bod wedi cyfathrebu gyda'r perchnogion ychydig flynyddoedd yn ôl ac roeddent yn gysudro a oes gennym gopi o'r gweithredoedd i'w tŷ nhw? Bydd y clerwr yn edrych trwy'r ffeil ac yn ymateb. / *The clerk has received a letter from a solicitor asking if we could help the owners of this house as we had communicated with the owners a few years ago they were wondering if we have a copy of the deeds to their house? The clerk will look through the file and respond.*

7. Cynllunio / Planning

7.1 Ceisiadau / Applications

HHP/2020/255, Glan Aber, Brynsiencyn - Cais llawn ar gyfer codi garej dwbl yn / *Full application for the erection of a double garage at*

Dim sylw / No comment

7.2 Penderfyniadau / Decisions

FPL/2020/8, Gwydryn Newydd, Llanfairpwll - Cais llawn ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol/ysgubor i ty gwyliau gosod, gosod system trin carthffosiaethynghyd a addasu'r fynedfa presennol i geir yn / *Full application for conversion of an outbuilding/barn into a holiday let, installation of a private treatment tank together with alterations to the existing vehicular access at*

RHYBUDD PENDERFYNIAD

Darllenwch yr amodau a restrir isod yn ofalus os gwelwch yn dda, efallai y bydd angen cyflawni rhai o'r amodau cyn, neu yn ystod, y gwaith datblygu. Mae eich cais wedi cael ei ystyried gan y Cyngor yn unol â'i awdurdod dan y Ddeddf uchod, a rhoddwyd **CANIATÂD** gyda'r amodau canlynol:-

(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn. Rheswm: I gydymffurfio gyda gofynion Adran 91(1) o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y diwygiwyd).

(02) Bydd llechi naturiol unlliw yn cael eu defnyddio ar gyfer to'r anheddau arfaethedig. Rheswm: Er mwyn sicrhau bod y datblygiad er budd amwynder.

(03) Bydd raid sicrhau bod gosodiad y fynedfa a dull ei hadeiladu yn cydymffurfio'n llwyr gyda y cynlluniau a gyflwynwyd cyn dechrau ar y defnydd y rhoddir caniatâd iddo yma ac wedyn bydd raid cadw'r fynedfa yn glir o bob rhwystr parhaol a'i defnyddio i ddibenion mynediad yn unig. Rheswm: Er mwyn lleihau'r perygl, rhwystr ac anhwylostod i ddefnyddwyr y briffordd a'r fynedfa.

(04) Ni fydd unrhyw waith ar yr adeilad lliniaru yn digwydd rhwng 1 Mawrth a 30 Medi mewn unrhyw flwyddyn oni bai fod yr adeilad wedi eu harchwilio gan ecolegydd cymwys er mwyn cadarnhau nad oes unrhyw adar yn nythu yno. Dylai canlyniadau'r arolwg fod ar gael i'r awdurdod cynllunio lleol cyn cychwyn ar y datblygiad. Rheswm: Osgoi amharu ar/achosi niwed i adar sy'n nythu.

(05) Bydd y datblygiad yn cael ei gyflawni yn unol â'r mesurau lliniaru a'r argymhellion sydd wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Arolwg Rhywogaethau a Warchodir Clwydian dyddiedig 10 Ebrill, 2020 a'r Adroddiad Ecoleg Lliniaru Ystlumod Clwydian dyddiedig 26 Hydref, 2018 (diweddarwyd Mehefin 2019) ac a gyflwynwyd o dan gais cynllunio cyfeirnod FPL/2020/8. Rheswm: Er mwyn diogelu unrhyw rywogaethau a warchodir neu adar yn nythu a allai fod yn bresennol ar y safle.

(06) Serch darpariaethau Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad a Ganiateir yn Gyffredinol) (Diwygiwyd) (Cymru) 2013 (neu unrhyw Orchymyn yn diddymu neu'n ail-osod y Gorchymyn hwnnw) mae'r datblygiad a ganiateir gan Ddosbarthiadau A, B, C, D, E ac F o Ran 1 o Atodlen 2 yma'n cael eu heithrio. Rheswm: Er budd mwynderau preswyl a gweledol.

(07) Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn dechrau nes bod cynllun tirlunio wedi'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol ac wedi'i gytuno arno yn ysgrifenedig. Bydd yn rhaid i'r awdurdod cynllunio fod yn gwbl fodlon â'r gwaith plannu a thirlunio hwn a wneir yn ystod y tymor plannu cyntaf ar ôl meddiannu'r annedd neu gwblhau'r datblygiad, pa un bynnag yw'r cynharaf. Bydd y coed a'r llwyni hyn yn cael eu cynnal am gyfnod o bum mlynedd ar ôl eu plannu ac os yw unrhyw goeden neu lwyn yn marw neu'n cael ei difrodi neu ei niweidio â chlefyd yn ystod y cyfnod hwn, bydd un newydd o faint a rhywogaeth debyg i'r un wreiddiol yn cael ei rhoi yn ei lle yn ystod y tymor plannu nesaf. Cedwir y coed a'r llwyni am oes y datblygiad a gymeradwyir yma. Rheswm: Er mwyn i'r cynnig integreiddio â'r ardal fel sy'n ofynnol dan Bolisi PCYFF4 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

(08) Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn cychwyn nes bod datganiad dull manwl ar gyfer tynnu, gwaredu a dileu Jac y Neidiwr ar y safle wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig. Gweithredir y cynllun yn unol â'r manylion cymeradwy. Rheswm: Rheoli ac atal unrhyw rywogaethau goresgynnol sy'n bresennol ar y safle.

(09) Ni fydd y datblygiad a ganiateir yma yn parhau tan y bydd arolwg ffotograffig o'r adeiladau wedi'i ymgymryd ag ef yn unol â gofynion Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd ar gyfer Arolygon Ffotograffig o Adeiladau a bod yr arolwg wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gadarnhau ganddynt yn ysgrifenedig. Rheswm: Er mwyn sicrhau bod cofnod digonol yn cael ei wneud o'r holl strwythurau a effeithir arnynt gan y cais a bod cofnod yn cael ei gadw yn y parth cyhoeddus ar gyfer gallu cyfeirio atynt yn y dyfodol a gwaith ymchwil.

(10) Bydd gwaith ar y datblygiad a ganiateir yma yn cael ei gyflawni mewn modd a fydd yn cydymffurfio'n llwyr â'r manylion a ddangosir ar y cynlluniau a nodir isod, manylion sydd wedi eu cynnwys mewn unrhyw ddogfennau a gyflwynwyd gyda chais o'r fath oni bai eu bod wedi eu cynnwys yn narpariaethau'r amodau sy'n rhan o'r caniatâd cynllunio hwn. Cynllun Lleoliad – 046.000 Adolygiad P6 · Cynllun Mynedfa Arfaethedig – 046.106 Adolygiad P3 · Bargod Arfaethedig – 046.131 Adolygiad P2 · Drychiadau Arfaethedig – 046.120 Adolygiad P6 · Cynllun Safle Arfaethedig – 046.104 Adolygiad P7 · Drychiadau Arfaethedig – 046.121 Adolygiad P7 · Cynlluniau Llawr Arfaethedig – 046.101 – Adolygiad P4 · Cynlluniau Llawr Cyntaf Arfaethedig – 046.102 – Adolygiad P4 · Cynllun To – 046.103 – Adolygiad P4 · Ysgubor 2 – 046.105 – Adolygiad P2 · Ysgubor 1 Adrannau Arfaethedig – 046.110 – Adolygiad P3 · Arolwg Rhywogaethau Gwarchodedig dyddiedig 10fed Ebrill, 2020 · Adroddiad Lliniaru Ystlumod Clwydian Ecology dyddiedig 26th Hydref, 2018 (wedi diweddaru Mehefin 2019) · Adroddiad Strwythurol – Dyddiedig Tachwedd 2018 a wedi ei ddiweddaru gyda ebost a dderbyniwyd ar 29 Ebrill, 2020. Rheswm: Sicrhau bod y datblygiad yn cael ei weithredu'n unol â'r manylion a gymeradwywyd. Y cynllun datblygu

sy'n berthnasol i Ynys Môn yw'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (2017).
Roedd y polisïau canlynol yn berthnasol i'r sylw a roddwyd i'r cais hwn:

PCYFF2, PCYFF3, PCYFF4, PS13, PS14, TWR2, PS19, AMG5, PCYFF1, CYF6, PS4, TRA4, PS5.

8. Gohebiaethau drwy ebyst / Correspondence via emails

Rhestrwyd gohebiaethau yn llawn yn agenda'r cyfarfod. / *Correspondence received was listed in full in the meeting's agenda.*

9. Adroddiadau gan y cynghorwyr sir. / Reports from the county councillors.

9.1 Adroddiad Cynghorydd EWJ / Councillor EWJ Report

Dim i'w adrodd / *Nothing to report*

10. Unrhyw Fater Arall (gyda chaniatad y Cadeirydd) / Any Other Business (with permission from the Chairperson)

ST - Mae Ynys Môn wedi cael nifer isel o bobl sydd wedi dal y feirws Cofid-19. Mae'r trac a'r olrhain yn gweithio'n dda ar yr ynys. / *Anglesey have a low number of people with Covid-19. The track and trace are working well on the island.*

10.2 Nid oedd gan aelodau eraill dim i'w adrodd. / *Other members had nothing to report.*

11. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting

Nos Fawrth, 26/01/2021 am 6.30y.h. ar-lein.

Tuesday Evening, 26/01/2021 at 6.30pm online.

11.2 Diolchodd yr Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clwyd y cyfarfod am 8.05y.h.. / *The Chairperson thanked members for attending the meeting. Meeting closed at 8.05pm.*